Swansea University
Prifysgol Abertawe


**PRIFYSGOL ABERTAWE**

# AELODAU LLEYG Y CYNGOR

Pecyn Gwybodaeth - Gorffennaf 2023



# PRIFYSGOL ABERTAWE
## Ar Frig y Don ers 1920



**Yr Abaty**
Adeilad hanesyddol trawiadol, gyda chyfoeth o fywyd gwyllt, yng nghanol Campws Singleton; un o'n dau gampws arobryn ar lan y môr

Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad a arweinir gan ymchwil sy'n ffynnu ar archwilio a darganfod. Rydym yn cynnig cydbwysedd hynod ddeniadol o addysgu ac ymchwil rhagorol, ynghyd ag ansawdd bywyd ardderchog ar ein dau gampws ar lan y môr.

A ninnau wedi dathlu ein canmlwyddiant yn 2020, rydym yn ymfalchïo'n fawr yng nghyfraniad ein Prifysgol at weddnewid Abertawe a'i gwneud yn ddinas rhagoriaeth.

Gyda mwy na 27,000 o fyfyrwyr, 3,800 o staff a throsiant blynyddol yn cyrraedd £370 miliwn, rydym wedi mwynhau cyfnod o dwf aruthrol. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y safonau uchaf o brofiad i'n myfyrwyr, gan fod yn wydn wrth addasu i dirweddau sy'n newid. Rydym yn arloesol o ran ein hymagwedd at addysgu a gweithrediadau, ac yn falch o'n cymuned gydweithredol o staff.

Ni yw'r Brifysgol Orau yng Nghymru ac rydym yn y 26ain safle yn y DU yn ôl The Guardian University Guide 2023. Hefyd, rydym yn y 15fed safle yn y DU am foddhad â'r cwrs. Mae myfyrwyr wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud, ac mae ein gwobr Prifysgol y Flwyddyn yng Ngwobrau Dewis Myfyrwyr What Uni 2019 yn dystiolaeth o hyn. Roeddem hefyd ar y brig yn y categori Rhyngwladol. Yng ngwobrau 2021, dyfarnwyd gwobr Arian i ni (2il safle) am Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac yng Ngwobrau StudentCrowd 2022 cawsom ein cynnwys ymysg yr 20 Brifysgol Orau yn y DU.

Mae 91% o'n hamgylchedd ymchwil yn cynhyrchu ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ac sy'n ardderchog yn rhyngwladol, fel yr aseswyd yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021. Gwnaethom hefyd gyflawni ein safle gorau erioed yn nhablau Prifysgolion y Byd QS fesul pwnc yn 2023, gyda dau bwnc yn y 100 gorau a 16 yn y 250 gorau.

Cawsom ein cynnwys yn y 200 uchaf yn nhablau effaith Times Higher Education 2022, sy'n asesu effaith prifysgolion ar y gymdeithas, yn seiliedig ar lwyddiannau wrth gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig (SDGs). Cawsom ein cynnwys yn y rhestr o'r 20 sefydliad gorau'n fyd-eang am dri o'r nodau, gan amlygu ein cryfder ym meysydd Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol (14eg), Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf (14eg) a Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy (18fed).

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, amrywiaeth a chynhwysiant ac rydym wedi bod yn aelod balch o Siarter Athena SWAN ers 2008. Rydym yn ddeiliad Gwobr Sefydliadol Arian, sef y safon uchaf ar hyn o bryd a ddyfarnwyd i unrhyw brifysgol yn y DU, a ni oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i gyflawni hyn.

# GWOBRAU A CHYDNABYDDIAETH

Mae'r rhestr lawn o'r **Gwobrau ar gael yma.** Mae'r rhestr lawn o **Safleoedd a Sgoriau ar gael** yma.

ENILLYDD
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN
(Gwobrau Dewis What Uni 2019)

STUDENTCROWD
15FED YN Y DU
BODDHAD MYFYRWYR
(Gwobrau Prifysgolion StudentCrowd 2022)

4
GWOBR ARIAN ATHENA SWAN
ARIAN ARIAN ARIAN ARIAN

THE IMPACT RANKINGS 2022 TOP 200
20 GORAU
NODAU DATBLYGU CYNALIADWY:
DINASOEDD A CHYMUNEDAU CYNALIADWY (**18**)
DEFNYDDIO A CHYNHYRCHU'N GYFRIFOL (**14**)
HEDDWCH, CYFIAWNDER A SEFYDLIADAU CRYF (**14**)

93%
O RADDEDIGION YN GWEITHIO, YN ASTUDIO A / NEU'N YMGYMRYD GWEITHGAREDDAU ERAILL
HESA 2022

26AIN / 121
YN Y DU
Guardian University Guide 2023

27AIN YN Y DU
THE TIMES THE SUNDAY TIMES
ANSAWDD ADDYSGU

ENILLYDD 2021
The Queen's Anniversary Prizes
YMCHWIL GWYDDOR DEUNYDDIAU A PHEIRIANNEG

12FED YN Y DU
Y 100 CYFLOGWR GORAU
Stonewall LGBTQ+ INCLUSIVE EMPLOYER GOLD AWARD 2023

AELOD O'R SIARTER
ECU RACE CHARTER Race Equality Charter
CYDRADDOLDEB HIL

91%
SAFLE YMCHWIL
SY'N ARWAIN YBYD / YN RHYNGWLADOL RHAGOROL
2021 Research Excellence Framework

CLOD MAWR
GRŴP RHWYDWAITH CYFLOGWYR LGBT+
Stonewall Workplace Equality Index 2023

WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2023
8FED SAFLE ANSAWDD ADDYSGU A DARLITHWYR
YN Y 10 SAFLE UCHAF AM DDARLITHWYR AC ANSAWDD ADDYSG

6ED
SAFLE AM Y DDINAS FWYAF DIOGEL I FYFYRWYR YN Y DU
COMPLETE UNIVERSITY GUIDE 2023

7
GWOBR EFYDD ATHENA SWAN
EFYDD EFYDD EFYDD EFYDD EFYDD EFYDD EFYDD

# GWEDDNEWID Y CAMPWS

Sefydlwyd Campws Singleton Prifysgol Abertawe ym 1920, pan osododd Brenin Siôr V garreg sylfaen seremonïol y Brifysgol yn Abaty Singleton. Wedi'i lleoli mewn parcdir ar lan môr Abertawe, hon oedd y brifysgol gyntaf a ddyluniwyd ar gynllun campws yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Abaty yn parhau i fod wrth wraidd y campws, sydd wedi parhau i ddatblygu ac sydd wedi bod yn gartref i'n Prifysgol ers bron i gan mlynedd.

Yn fwy diweddar, sefydlwyd ein Campws y Bae, sef datblygiad ar lan y môr gwerth £450 miliwn, sydd wedi dyblu ein gallu ymchwil ac addysgu, ar ochr ddwyreiniol y ddinas. Ynghyd â gwaith parhaus i weddnewid Campws Parc Singleton, mae'r datblygiad hwn yn arwydd o'n bwriad i fod yn un o'r lleoedd gorau i fyw, addysgu, ymchwilio a chydweithio yn Ewrop.

Bydd ein datblygiad diweddaraf, y Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol, yn agor yn ffurfiol yn 2023 a bydd yn hyb i gysylltu ymchwil, arloesi a gweithgynhyrchu er mwyn ysgogi twf economaidd yn y rhanbarth.



**Y Ffowndri Gyfrifiadol:** cyfleuster gwerth £32.5m o'r radd flaenaf

"Enghraifft ddisglair o gydweithio arloesol rhwng ymchwilwyr a diwydiant, a fydd yn denu rhagor o gyllid ar gyfer ymchwil ac yn sefydlu Cymru fel canolfan cyfrifiadureg ac arloesi sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang."
Prif Weinidog Cymru, 2018



Campws y Bae

# EIN **GWELEDIGAETH STRATEGOL**

**Rhan annatod o'n llwyddiant yw ein gallu i ddarparu addysgu ac ymchwil rhagorol, yn ogystal ag ansawdd bywyd o'r radd flaenaf i'n staff a'n myfyrwyr.**




## EIN GWELEDIGAETH

Rydym, a byddwn yn parhau'n Brifysgol egwyddorol, bwrpasol a gwydn sy'n cydbwyso addysgu rhagorol ag ymchwil ac arloesi sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang mewn amgylchedd agored sy'n galluogi ein myfyrwyr a'n cydweithwyr i ragori. Mae cydweithredwyr ledled y byd yn ein gwerthfawrogi fel partner y gallant ymddiried ynddo, ond rydym hefyd yn hollol ymrwymedig i'n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol ar gyfer Cymru.

*Gweddw crefft heb ei dawn / Technical skill is bereft without culture*

Yn ein hanfod, rydym yn sefydliad egwyddorol, pwrpasol a gwydn sy'n nodweddiadol am werthoedd, diwylliant ac ymddygiadau arbennig sydd wrth wraidd ac yn tanategu'r pum piler strategol allweddol:

1. **Ein Cenhadaeth Ddinesig:**
   Rydym yn falch o berthyn i Ddinas Abertawe a Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Gyda champysau yn ardaloedd tri awdurdod lleol, rydym yn cydnabod mai prifysgol y rhanbarth yw ein Prifysgol ni.

2. **Profiad ein Myfyrwyr:**
   Ein myfyrwyr yw calon ein Prifysgol a gallwn ymfalchïo yn ein henw cryf cyson am ansawdd ein profiad i fyfyrwyr, cryfder ein gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr a'n hymrwymiad i iechyd meddwl a lles myfyrwyr.

3. **Ein Dysgu a'n Haddysgu:**
   Mae rhannu gwybodaeth er mwyn meithrin sgiliau meddwl yn annibynnol ac yn feirniadol yn elfen sylfaenol o'n diben. Mae'n galluogi ein myfyrwyr i fod yn gadarn yn wyneb heriau byd-eang ac i addasu i fyd gwaith newidiol. Rydym yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg ac yn falch o fod yn rhan o genedl ddwyieithog

4. **Ein Hymchwil:**
   Mae ein hymchwil yn newid bywydau, yn ysgogi arloesi a thwf rhanbarthol ac mae'n cydweddu â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n effeithio ar ein diwylliant, ein cymdeithas, ein hiechyd, ein lles, ein heconomi a'n planed.

5. **Ein Mentergarwch:**
   Rydym yn brifysgol hynod gydweithredol ac entrepreneuraidd. Cawsom ein sefydlu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ac rydym yn parhau'n ffyddlon i uchelgeisiau ein sefydlwyr, drwy weithio gyda phartneriaid diwydiannol, masnachol ac yn y sector cyhoeddus er budd ein rhanbarth a'n cenedl.

Nodir pob un o'r meysydd hyn gan ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth, gweithredu â chyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol, ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth a chynnal meddylfryd byd-eang sydd yn ein galluogi i fod yn Brifysgol gymunedol â chyrhaeddiad ac enw rhyngwladol.

Gweler ein Gweledigaeth **Strategol a'n Pwrpas** llawn ar-lein

# RHAGORIAETH ADDYSGU

Rydym yn sefydliad uchelgeisiol sy'n darparu amgylchedd academaidd rhagorol a chytbwys gan alluogi myfyrwyr a chydweithwyr i ragori.

Mae ein hymrwymiad at amrywiaeth, ar y cyd â'n gallu i dderbyn myfyrwyr sydd â thariffau mynediad isel, yn ogystal â chyflawni lefelau cyflogadwyedd graddedigion sy'n arwain y sector, yn dangos pa mor werthfawr yw profiad cyfoethog y myfyrwyr ac ansawdd yr addysgu.

Mae ein Prifysgol  yn un o sefydliadau addysg uwch blaenllaw'r DU am gynnydd dysgu, ac mae cyflogaeth graddedigion wrth wraidd ein darpariaeth. Ceir tystiolaeth o hyn yn y ffaith bod Abertawe yn un o 6 phrifysgol orau'r DU ar gyfer rhagolygon graddedigion ac yn y 23 orau ar gyfer boddhad cyffredinol myfyrwyr (Guardian University Guide 2022).

Mae staff yn Abertawe wedi ymrwymo i ddatblygu'n broffesiynol, gan gynnig dysgu ysbrydoledig a thrawsnewidiol, sydd ar flaen y gad o ran gweithgareddau addysgu. Mae ein cymuned Academaidd yn cynnwys unigolion sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth unigol am yr hyn a gyflawnwyd ganddynt, megis; BMA Cymru Wales/BMJ Athro Clinigol y Flwyddyn; Enillydd gwobr Arloesi WISE; Achubwyr Bywyd y Genedl – 100 unigolyn gorau; Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol Advance HE; a llawer mwy.

Caiff ein cydweithwyr addysgu gefnogaeth gan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT), sy'n gartref i adnoddau a chymorth ar gyfer pob gweithgaredd i wella dysgu ac addysgu.

Yn ogystal, mae gennym nifer o academïau a gwasanaethau unigryw, sy'n manteisio ar ein henw da o ran ymchwil a phartneriaethau diwydiannol i gefnogi ein cynigion dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf.

Mae ein Hacademi Iechyd a Llesiant, o'r radd flaenaf, yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr weithio gydag ymarferwyr tra chymwys mewn amgylchedd proffesiynol, hamddenol a chyfeillgar. Mae'r academi yn cefnogi iechyd a lles pobl yn y rhanbarth lleol ac, yn 2018, fe'i cydnabuwyd am yr hyn y mae wedi ei gyflawni, gan ennill categori Effaith Gymdeithasol a Chymunedol yng Ngwobrau Prifysgolion y Guardian.

Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe (SEA), mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, yn cynnig cyllid ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr a arweinir gan fyfyrwyr. Mae SEA yn galluogi myfyrwyr i gymryd yr awenau yn eu mentrau eu hunain, gan sicrhau bod dysgu a phrofiad yn digwydd ar yr un pryd a chan arwain at gyfleoedd gyrfa llwyddiannus i raddedigion.

Mae ein holl academïau yn canolbwyntio ar gyfoethogi rhagoriaeth dysgu ac addysgu, â'r nod o fwyafu'r buddion nid yn unig ar gyfer ein myfyrwyr a'n cydweithwyr, ond ar gyfer y gymuned ehangach hefyd.




**Yr Academi Iechyd a Llesiant**
Dyma fenter yng Ngholeg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, gan gefnogi iechyd a lles pobl yn ne-orllewin Cymru.

# RHAGORIAETH YMCHWIL

Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad angor ymchwil ddwys sy'n creu effaith economaidd, gymdeithasol, ddiwylliannol ac iechyd gyda chyrhaeddiad byd-eang ac sy'n adeiladu ar ein hetifeddiaeth gyfoethog o ddarganfod ac ymchwil wedi'i llywio gan wybodaeth a'r ysbryd arloesol sydd wedi diffinio ein prifysgol ers iddi gael ei sylfaenu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ym 1920.

Rydym yn adnabyddus am gyd-greu a chyflwyno arloesiadau trawsnewidiol, ac yn meithrin cydweithrediadau uchelgeisiol â phartneriaid ym myd diwydiant, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae ein cryfderau mewn ymchwil ac arloesi rhyngddisgyblaethol ar draws ein tair Cyfadran (Gwyddoniaeth a Pheirianneg, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, a Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd) yn gwneud gwahaniaeth i fywydau a dyfodol pobl drwy ymchwil ac effaith rhagorol, dibynadwy a chyfrifol.

Cyflwynwyd gwaith y nifer uchaf erioed o ymchwilwyr (578) i'w asesu yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021, sy'n gynnydd o 56% ar y 370 a gyflwynwyd yn 2014. Rydym wedi tyfu ein canran gyffredinol o ymchwil sy'n rhagorol yn rhyngwladol ac sydd ar flaen y gad o 80% yn 2014 i 86% yn 2021, a barnwyd bod mwy na 90% o'n heffaith o'r radd flaenaf neu'n rhyngwladol ragorol o ran eu cyrhaeddiad a'u harwyddocâd.

Fel sefydliad Addysg Uwch ymchwil ddwys yng Nghymru, rydym yn cyfrannu at "ddwy flaenoriaeth" Llywodraeth Cymru "o gyflwyno cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi ffyniannus" a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), gan gyfrannu at gynnydd o ran Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

**1090**

**O YMCHWILWYR ARLOESOL**

**91%**

AMGYLCHEDD YMCHWIL Y BARNWYD EI FOD 'O'R RADD FLAENAF' NEU'N 'RHYNGWLADOL RAGOROL'

(REF 2021)

**YMYSG Y 400**

**SAFLE GORAU YN YN NHABLAU BYD-EANG QS**

**578**

CYFLWYNWYD GWAITH 578 O YMCHWILWYR I'W ASESU

(REF 2021)



# ARLOESEDD A MENTERGARWCH

Sefydlwyd Prifysgol Abertawe gan ddiwydiant ym 1920 i gyflawni er lles diwydiant. Mwy na chan mlynedd yn ddiweddarach, rydyn ni'n parhau i feithrin cysylltiadau nodedig â phartneriaid masnachol a diwydiannol ar draws amrywiaeth o sectorau. Rydym yn arwain Cymru mewn meysydd ymchwil hollbwysig i dwf economaidd a lles y boblogaeth, gan gynnwys yn y Gwyddorau Amgylcheddol, Meddygaeth a Pheirianneg.

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo a chefnogi gwaith cydweithredol sy'n arwain at arloesi. Rydym yn ymfalchïo yn y mentrau arobryn sy'n deillio o'n Prifysgol, ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda hi. Ar hyn o bryd, mae gennym:

- 40+ cwmni wedi'u cydleoli ar ein campysau;
- 30+ menter ddeilio ar Gampws y Bae ers iddo agor
- £80m mewn incwm ymchwil HEBCI gydweithredol– ein swm uchaf erioed a chynnydd o £6m ers 2021

Rydym yn gwrando ar anghenion busnes ac rydym wedi datblygu cydweithrediadau strategol effeithiol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, gan helpu i;

- oresgyn heriau diwydiant a darganfod cyfleoedd newydd
- darparu mynediad i ddoniau ar gyfer diwydiant a sgiliau y bydd galw mawr amdanynt yn y dyfodol i'r myfyrwyr
- darparu cyfleoedd masnachol megis cydleoli canolfannau blaenllaw diwydiant.

I gydnabod pwysigrwydd ein Prifysgol i Ddinas-ranbarth Bae Abertawe, ac ar y cyd â Chyngor Abertawe, rydym wedi addo creu mwy o swyddi, gwella addysg a pharhau i hyrwyddo diwylliant o fentergarwch ac arloesedd.
Mae gennym nifer o bartneriaethau arwyddocaol, hirdymor â diwydiant, gan amrywio o TATA a Rolls Royce i'r DVLA a SKY.

**Bargen Ddinesig**
Mae Prosiect Campysau Bargen Ddinesig Bae Abertawe gwerth £132m, a arweinir gan Brifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Chyngor Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Partneriaeth Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd (ARCH) a phartneriaid allweddol yn y sector preifat, wedi sicrhau £15m i ddatblygu safleoedd yn Nhreforys a Singleton. Bydd yn hyrwyddo arloesi a thwf busnes yn y sectorau technoleg feddygol a thechnoleg chwaraeon sy'n ehangu, a disgwylir iddo agor 2026.

Hefyd fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe – mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe a Tata Steel UK ac o dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – mae de Cymru'n barod i adeiladu ar ei chryfder a'i harbenigedd mewn arloesi ym maes dur a metelau wrth lansio cyfleuster newydd sbon gwerth £20 miliwn, SWITCH: Hyb Diwydiannol Pontio o Garbon De Cymru.

Bydd y cyfleuster newydd hwn, y disgwylir iddo fod yn weithredol yn 2025, yn fan lle gall ymchwilwyr academaidd, y llywodraeth a diwydiant gydweithio i gyflwyno atebion ymarferol i ddatgarboneiddio'r sector a dur a metelau a'i gadwyni cyflenwi

**Cyfrifon Cyflymu Effaith**
Gan adeiladu ar lwyddiant Cyfrifon Cyflymu Effaith yr EPSRC, yn 2022 dyfarnwyd >£2 filiwn i Gyfrifon Cyflymu effaith y brifysgol i gefnogi portffolio o weithgareddau dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r cyllid yn cynnwys dyfarniad gan yr ESRC (y cyfanswm i'w gadarnhau), £450,000 gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC), £450,000 gan y Cyngor Ymchwil Meddygol (MRC) a £1,158,212 gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC).

# CADARNLE AR GYFER YR IAITH GYMRAEG A'I DIWYLLIANT

Mae Prifysgol Abertawe'n brifysgol ddwyieithog ac yn gadarnle ar gyfer yr iaith Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant.

O ddechreuadau di-nod fel Coleg Prifysgol lleol dros ganrif yn ôl, heddiw rydym yn hyderus ac yn falch o fod yn Brifysgol i Gymru.

Rydym yn hyrwyddo ac yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg wrth fod yn ddigon cryf i gystadlu â llawer o sefydliadau gorau'r byd.

Rydym yn angor diwylliannol ac economaidd yn ein cymuned, ac mae gennym rôl ddynodedig i'w chwarae wrth ysgogi datblygiad rhanbarthol, gan gynnwys eirioli dros defnyddio'r Gymraeg. Rydym yn ymrwymedig i Safonau'r Gymraeg ac yn gwbl gynhwysol wrth groesawu myfyrwyr, cydweithwyr, partneriaid a'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym mha ffordd bynnag y dymunant wrth ryngweithio â ni.

> *Y Gymraeg yw calon ein cymuned - yn gyfrwng dysgu, ymchwilio, cymdeithasu a dathlu.*
>
> *The Welsh language is at the heart of our community - a medium to learn, research, socialise and celebrate.*

SD, Daearyddiaeth



# ACADEMI HYWEL TEIFI

Academi Hywel Teifi yw pwerdy Cymraeg y Brifysgol - canolfan ragoriaeth ar gyfer astudio'r Gymraeg a'i diwylliant, gan hyrwyddo dysgu ac addysgu Cymraeg ar draws yr ystod o bynciau.

Fe'i sefydlwyd yn 2010 er cof am yr Athro Hywel Teifi Edwards, cyn-Athro'r Gymraeg yn y Brifysgol ac un o enwogion y genedl.

Er bod yr Academi'n gartref i dîm craidd o staff, mae hefyd yn gymuned i'r holl gydweithwyr sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg ac i'r miloedd o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ar y campws. Mae'n gweithio i sicrhau statws uwch i'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd yn ein Prifysgol ac yn ne-orllewin Cymru

Drwy weithgareddau amrywiol, mae'n cefnogi, yn cynyddu ac yn cyfoethogi darpariaeth ac ymchwil Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe ac yn annog cydweithio, entrepreneuriaeth a chyfleoedd. Y nod yw sicrhau bod myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn cael y gorau o ddau fyd - Profiad Cymraeg mewn prifysgol â chysylltiadau amlddiwylliannol a rhyngwladol.

Mae'r Academi'n gartref i'r canlynol;

- **Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol - Cangen Prifysgol Abertawe:**
  Mae'n cynllunio ac yn cefnogi darpariaeth addysg uwch Gymraeg mewn ffordd strategol ar draws prifysgolion Cymru. Mae ganddo rôl allweddol wrth sicrhau a datblygu cyfleoedd i astudio yn Gymraeg ar gyfer dysgwyr, myfyrwyr a phrentisiaid.

- **Dysgu Cymraeg - Rhanbarth Bae Abertawe:**
  Yn cyflwyno cyrsiau a gweithgareddau iaith o safon ar ran y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg, i Ddinas Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot.

- **Tŷ'r Gwrhyd**
  Partneriaeth rhwng Academi Hywel Teifi a Chyngor Castell-nedd Port Talbot, (a dderbyniodd grant gan Lywodraeth Cymru gwerth £300,000) i greu canolfan gymunedol Gymraeg yng nghanol Cwm Tawe.

Academi Hywel Teifi | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh | Dysgu Cymraeg Learn | Llywodraeth Cymru Welsh Government | Coleg Cymraeg Cenedlaethol | Neath Port Talbot County Borough




# TWF MEWN MYFYRWYR RHYNGWLADOL

Mae Prifysgol Abertawe’n ymfalchïo yn ei chyrhaeddiad byd-eang a’i henw da wrth weithio gyda phartneriaid rhyngwladol i gyflawni ymchwil o’r radd flaenaf, mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu ac addysgu a chyfleoedd i fyfyrwyr a fydd yn newid eu bywydau.
Mae ein campysau’n fywiog ac yn amrywiol, gan gynnwys unigolion o fwy na 130 o wledydd gwahanol oll yn rhan o’n cymuned gyfeillgar. Mae ein Prifysgol wedi parhau i addasu a datblygu ein cyrhaeddiad yn y farchnad ryngwladol.

Mae ein Campws y Bae yn gartref i’r Coleg sy’n olynydd i’r hyn a elwid yn Goleg Rhyngwladol Cymru, Abertawe [ICWS] gynt, sydd wedi helpu mwy na 2,000 o fyfyrwyr i symud ymlaen i’n Prifysgol. Dyma gyfradd ddilyniant o 95%.

Yn 2019, roedd yn anrhydedd mawr i ni ennill y categori Rhyngwladol yng Ngwobrau Myfyrwyr What Uni ac yn ystod 2023, cawson ni ein cynnwys ymhlith y 10 gorau yn y Deyrnas Unedig ar gyfer Rhyngwladol. Mae’r gydnabyddiaeth hon yn dystiolaeth o’n hymrwymiad i ryngwladoli drwy’r safonau uchaf o foddhad myfyrwyr.

Yn 2023, cawsom ni ein safle uchaf erioed yn y Times Higher Education World University Rankings. Bellach, rydym yn falch o fod ymysg y 300 sefydliad elît gorau yn y byd.






# PARTNERIAETHAU STRATEGOL RHYNGWLADOL

Mae gennym ni nifer o Bartneriaethau Strategol Rhyngwladol (ISPs) sy'n arwain y sector.

Mae'r Partneriaethau hyn yn nodweddiadol am led a dyfnder y cydweithrediadau sy'n cynnwys ymchwil, addysgu, a symudedd ar draws ystod eang o feysydd pwnc.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, gwelwyd cynnydd o 91% yn nifer y myfyrwyr sy'n manteisio ar y cyfleoedd byd-eang rydym yn falch o'u cynnig.

Mae ein Strategaeth Ryngwladol 2020 – 2025 yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad i ryngwladoli cynhwysfawr, a ddangosir trwy weithredu, i gynnwys safbwyntiau rhyngwladol a safbwyntiau cymharol yn holl weithgarwch addysgu, ymchwil, a chyfnewid gwybodaeth ein Prifysgol.

Mae partneriaethau dwfn, wedi'u creu ar y cyd â nifer fach o brifysgolion tramor o ansawdd uchel, wrth wraidd ein strategaeth.

CYDWEITHIO Â

**127 O WLEDYDDYM MHEDWAR BAN BYD**



# CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Ein pobl yw ein hased pwysicaf ac maent yn diffinio ein Prifysgol. Rydym yn sefydliad egwyddorol. Rydym yn deall bod ein hymddygiad beunyddiol yn bwysig; mae gennym ffydd yn ein gilydd, rydym yn ein cefnogi ein gilydd, rydym yn dathlu cyflawniadau ein gilydd ac yn dwyn ein gilydd i gyfrif. Rydym yn parchu ein cydweithwyr ac yn trin eraill fel byddem yn disgwyl iddynt ein trin ni, ac rydym yn gweithio fel un brifysgol, gan gydnabod bod pob cydweithiwr yn cyfrannu at ein llwyddiant.

Rydym yn gwerthfawrogi pobl am eu sgiliau waeth beth fo'u cefndir.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, i bawb ac rydym yn falch o fod wedi cael ein cydnabod gan ein myfyrwyr am hyn. Mae tystiolaeth i'w gweld yn ein gwobr arian ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant yng ngwobrau WhatUni 2021.

Rydym yn falch o fod yn:

- Gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol Achrededig
- Aelod Siarter Athena SWAN
- Aelod Cyflogwyr i Ofalwyr
- Aelod Siarter Cydraddoldeb Hiliol
- Un o 100 cyflogwr gorau Stonewall
- Aelod Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr

I gael rhagor o wybodaeth: Tudalennau gwe Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant






# STRWYTHUR Y BRIFYSGOL

## UWCH-DÎM ARWEINYDDIAETH

Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol; y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd; y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg a chaiff ei harwain gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth sy'n cynnwys:

| | |
|---|---|
| **Is-ganghellor** | Yr Athro Paul Boyle |
| **Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu** | Mrs Niamh Lamond |
| **Dirprwy Is-ganghellor (Addysg)** | Yr Athro Deborah Youngs |
| **Dirprwy Is-ganghellor (Rhyngwladol)** | Yr Athro Judith Lamie |
| **Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi)** | Yr Athro Helen Griffiths |
| **Dirprwy Is-ganghellor (Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol)** | Yr Athro Ryan Murphy (interim) |
| **Dirprwy Is-ganghellor (Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd)** | Yr Athro Keith LLoyd |
| **Dirprwy Is-ganghellor (Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg)** | Yr Athro David Smith |
| **Prif Swyddog Ariannol** | Mrs Sarah Jones |

## GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Proffesiynol yn cefnogi gwaith ein Prifysgol maent yn gyfrifol am sicrhau gwasanaethau proffesiynol effeithiol ac effeithlon ar draws gweithgareddau ein Prifysgol.

| | |
|---|---|
| **Adnoddau Dynol** | Mrs Sian Cushion |
| **Gwasanaethau Academaidd** | Mr Adrian Novis |
| **Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau** | Mr Paul Westmore |
| **Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi** | Mr Ceri Jones |
| **Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol** | Dr Mark Skippen |
| **Swyddfa'r Is-ganghellor** | Ms Louise Woollard |
| **Ystadau a Rheoli Cyfleusterau** | Mr Greg Ducie |
| **Yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol** | Mr Andrew Jones /Miss Louisa Parry |



# LLYWODRAETHU'R BRIFYSGOL

## CYNGOR EIN PRIFSYGOL

Cyngor Prifysgol Abertawe yw'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol ein Prifysgol, yn ogystal â'i chyllid, ei heiddo, ei buddsoddiadau a'i busnes cyffredinol. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor, sy'n ymgynnull sawl gwaith y flwyddyn, 17 o aelodau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'n Prifysgol.

Mae'r aelodaeth bresennol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor** | Mr Bleddyn Phillips |
| **Dirprwy Ganghellor** | Syr Roderick Evans |
| **Trysorydd** | Mr Carlos (Goi) Ashmore |
| **Is-ganghellor** | Yr Athro Paul Boyle |
| **Aelodau Lleyg Cyfetholedig gan y Cyngor** | Dr Kerry Beynon, Professor Edward David, Professor Kathryn Monk, Dr Angus Muirhead, Ms Elin Rhys, Mrs Marcia Sinfield, Professor Keshav Singhal, Ms Anne Tutt, Mr Laurence Carpanini |
| **Aelodau o Staff a benodir gan y Senedd** | Yr Athro Michelle Lee, Dr Phatsimo Mabophiwa |
| **Aelodau o Staff Prifysgol Abertawe fel y'i pennir gan yr Ordinhadau** | Dr Mahaboob Basha, Mr Adam Jones |
| **Llywydd Undeb y Myfyrwyr** | Mr Pablo Josiah |
| **Myfyriwr a benodir gan Undeb y Myfyrwyr** | Ms Abigail Ogwatu |

## SENEDD EIN PRIFYSGOL

Senedd ein Prifysgol yw uwch gorff academaidd ein Prifysgol ac mae'n gyfrifol, yn unol â chymeradwyaeth y Cyngor, am reoleiddio a goruchwylio cyrsiau, dyfarniadau a chymwysterau a ddarperir gan ein Prifysgol. Daw aelodau'r Senedd o staff academaidd a myfyrwyr y sefydliad.

## LLYS EIN PRIFYSGOL

Mae'r Llys, sy'n gorff sylweddol a chanddo dros 300 o aelodau, yn sefyll uwchlaw prif gyfundrefn benderfynu ein Prifysgol, gan gynrychioli rhanddeiliaid y Sefydliad. Daw'r rhan fwyaf o aelodau'r Llys o'r tu allan i'n Prifysgol, gan gynrychioli'r gymuned leol a chyrff dynodedig eraill sydd â diddordeb yng ngwaith ein Prifysgol.



# AELODAU LLEYG Y CYNGOR

# Gwybodaeth Gefndir

Mae Cyngor y Brifysgol, y corff llywodraethu, yn gyfrifol am bennu'r cyfeiriad strategol, ac am gyllid, eiddo, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau allanol, aelodau staff a myfyrwyr a benodir yn unol â Statudau'r Brifysgol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau lleyg nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Brifysgol.

Dymuna'r Cyngor benodi nifer o aelodau lleyg newydd i'r Cyngor dros y 6 i’r 9 mis nesaf. Fel arfer mae aelodau lleyg y Cyngor yn cael eu penodi i wasanaethu am gyfnod o bedair blynedd, gyda'r opsiwn i gael eu hailbenodi am dymor pellach. Trefnir rhaglen sefydlu ar gyfer aelodau newydd, wedi'i theilwra i'w gofynion unigol.

Nid yw aelodaeth o'r Cyngor yn cael ei thalu, ond bydd costau teithio rhesymol o fewn y DU yn cael eu talu.

Gall aelodau o’r Cyngor hefyd gael eu gwahodd i wasanaethu ar bwyllgorau eraill y Cyngor, ynghyd â chymryd rhan mewn agweddau eraill ar fywyd yn y Brifysgol.

Pwyllgorau’r Cyngor yw:

Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg

Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth

Y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau’r Cyngor yn ystod y dydd, fel arfer ar ddydd Llun a dydd Iau. Yn gyffredinol, cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn Abertawe, fodd bynnag, cynhelir cyfarfodydd ar-lein o bryd i’w gilydd a gall aelodau hefyd ymuno â chyfarfodydd o bell ar adegau pan fydd hi’n anodd dod i’r Brifysgol oherwydd ymrwymiadau personol.

Croesewir mynegiannau o ddiddordeb gan ddarpar ymgeiswyr â phrofiad arweinyddiaeth helaeth ar lefel uwch a dealltwriaeth gadarn o lywodraethu corfforaethol. Yn benodol, rydym yn chwilio am Lywodraethwyr gydag Ystadau, Codi Arian, Digidol / TG, y Gymraeg, Cyfreithiol, y Cyfryngau / Marchnata/PR, Pwyllgor Taliadau a phrofiad Masnachol.

Mae mwy o fanylion am ddyletswyddau a chyfrifoldebau aelodau'r Cyngor yn y disgrifiad rôl atodedig.

Mae Prifysgol Abertawe’n ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad ac mae'n croesawu amrywiaeth o syniadau, ymagweddau a chefndiroedd ein holl bobl. Mae wedi bod yn aelod balch o Siarter Athena SWAN ers 2008 ac rydym yn falch o feddu ar Wobr Arian Athena Swan Sefydliadol. Rydym yn awyddus iawn i gynyddu cynrychiolaeth aelodau BAME (Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig). Gwneir penodiadau ar sail teilyngdod.

# DISGRIFIAD RÔL AR GYFER AELODAU'R CYNGOR

Mae'r disgrifiad rôl canlynol yn crynhoi dyletswyddau a chyfrifoldebau aelodau'r Cyngor ac fe'i defnyddir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau wrth geisio ymgeiswyr i lenwi lleoedd gwag ar y Cyngor.

**1. Aelodaeth**

a) Mae gan aelodau rôl hollbwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod busnes angenrheidiol y Cyngor yn cael ei wneud yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn modd sy'n cydweddu ag ymgymryd â busnes cyhoeddus yn briodol. Gall yr holl aelodau gyfrannu'n rhydd at drafodaethau a chynnig eu gwybodaeth a'u harbenigedd i'r Cyngor wrth i'r cyfle godi.

b) Mae gan aelodau gyfrifoldeb am sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu yn unol ag offerynnau llywodraethu'r Brifysgol ac â rheolau a rheoliadau mewnol y Brifysgol. Dylent geisio cyngor gan yr Ysgrifennydd os oes ansicrwydd.

c) Mae gan aelodau gyd-gyfrifoldeb am y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor. Ni chaiff aelodau sy'n cael eu hethol, eu henwebu neu eu penodi gan grwpiau penodol weithredu fel pe baent wedi'u dirprwyo gan y grŵp maent yn ei gynrychioli, ac ni ddylent gael eu rhwymo mewn unrhyw ffordd gan fandadau a roddir iddynt gan eraill.

ch) Er mwyn osgoi gwrthdaro arwyddocaol posib rhwng buddiant a dyletswydd (boed mewn gwirionedd neu'n ymddangosiadol), nid yw aelodau cyrff llywodraethu prifysgolion/sefydliadau addysg uwch eraill fel arfer yn gymwys i'w penodi'n aelodau cyfetholedig o Gyngor y Brifysgol. Yn yr achosion hynny lle mae aelodau'r Cyngor hefyd yn aelodau o gyrff llywodraethu prifysgolion/sefydliadau addysg uwch eraill, bydd yn ofynnol iddynt gadarnhau bob blwyddyn, wrth ddiweddaru eu cofnodion Datganiad o Fuddiant, na fyddant yn cyfleu i'r prifysgolion/sefydliadau addysg uwch eraill mae ganddynt gysylltiad â hwy unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r Brifysgol neu ei gweithgareddau maent yn ymwybodol ohoni yn rhinwedd bod yn aelodau o Gyngor Prifysgol Abertawe. Mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor, oni bai fod mwyafrif o aelodau eraill y Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd, yn cydsynio i'w presenoldeb, byddant yn absennol o bob trafodaeth sy'n ymwneud â'r cyfryw brifysgolion/sefydliadau addysg uwch.

**2. Safonau**

a) Mae gan aelodau gyfrifoldeb am sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â safonau derbyniol mewn bywyd cyhoeddus, sy'n cynnwys anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, tryloywder, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Disgwylir iddynt reoleiddio eu hymddygiad fel aelodau'r Cyngor yn unol â'r safonau hyn.

b) Disgwylir i aelodau wneud datgeliad llawn ac amserol o'u buddiannau personol i'r Ysgrifennydd yn unol â'r gweithdrefnau a gymeradwywyd gan y Cyngor. Mae'n rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ddatgelu unrhyw fuddiant sydd ganddynt mewn mater a drafodir, a derbyn penderfyniad y Cadeirydd ynghylch ymdrin â'r sefyllfa honno. Mae hyn er mwyn cynnal uniondeb busnes y Cyngor a'i bwyllgorau a sicrhau y gwelir ei fod yn cael ei gynnal.

c) Gan mai elusen yw'r Brifysgol, mae gan aelodau gyfrifoldeb am sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio adnoddau'r Brifysgol mewn modd effeithlon ac effeithiol er mwyn cyflawni ei dibenion elusennol, bod y Brifysgol yn cynnal ei dichonoldeb ariannol tymor hir a'i bod yn diogelu ei hasedau, a bod mecanweithiau priodol yn bodoli i sicrhau rheolaeth ariannol ac i osgoi twyll.

### 3. Busnes y Brifysgol

a) Mae gan aelodau gyfrifoldeb am sicrhau bod y Cyngor yn rheoli cyfeiriad strategol y Brifysgol a bod perfformiad y Brifysgol yn cael ei asesu'n ddigonol yn erbyn yr amcanion a gymeradwywyd gan y Cyngor.

b) Anogir aelodau i feithrin perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol ag aelodau staff y Brifysgol y maent yn dod i gysylltiad â hwy. Fodd bynnag, rhaid i aelodau gydnabod gwahaniad priodol rhwng llywodraethu a rheoli gweithredol, ac osgoi cymryd rhan yn rheoli gweithredol o ddydd i ddydd y Brifysgol.

c) Mae adrannau 1 a 2 uchod yr un mor berthnasol i aelodau pwyllgorau a benodir gan y Cyngor.

### 4. Y Rôl Allanol

a) Gellir gofyn i aelodau gynrychioli'r Brifysgol a'r Cyngor yn allanol. Byddant yn derbyn cyfarwyddyd llawn gan y Brifysgol i'w galluogi i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

b) Gellir gofyn i aelodau ddefnyddio dylanwad personol a sgiliau rhwydweithio ar ran y Brifysgol (y rôl 'agor drysau').

c) Gellir gofyn i aelodau chwarae rôl wrth gysylltu rhwng rhanddeiliaid allweddol a'r Brifysgol neu wrth godi arian. Byddant yn derbyn cyfarwyddyd llawn gan y Brifysgol i'w galluogi i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

### 5. Personol

a) Disgwylir i aelodau fod ag ymrwymiad personol cryf i addysg uwch ac i werthoedd, nodau ac amcanion y Brifysgol.

b) Disgwylir i aelodau weithredu bob amser yn deg ac yn ddiduedd er buddiannau'r Brifysgol gyfan, gan ddefnyddio barn annibynnol a sicrhau cyfrinachedd fel y bo'n briodol.

c) Gofynnir i aelodau ymddiheuro mewn da bryd i'r Ysgrifennydd perthnasol os nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfodydd y Cyngor neu bwyllgorau'r Cyngor maent yn aelodau ohonynt.

ch) Disgwylir i aelodau gymryd rhan mewn gweithdrefnau a sefydlwyd gan y Cyngor er mwyn adolygu effeithiolrwydd y Cyngor a'i aelodau'n rheolaidd. Anogir aelodau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sefydlu a drefnir gan y Brifysgol ac mewn digwyddiadau hyfforddiant priodol (megis y rhai a drefnir gan Advance HE), a dynnir i'w sylw gan yr Ysgrifennydd).

d) Disgwylir i aelodau fynychu o leiaf bedwar cyfarfod o'r Cyngor mewn blwyddyn, y bydd pob un ohonynt yn para rhwng dwy a thair awr. Mae'n debygol y bydd yn cymryd o leiaf ddwy awr i ddarllen papurau a dod yn gyfarwydd â'r cynnwys cyn pob cyfarfod.

dd) Nid yw aelodau'r Cyngor yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol, ond anogir aelodau lleyg (h.y. nad oes ganddynt gysylltiad â'r Brifysgol) i hawlio'r holl dreuliau teithio a threuliau tebyg maent yn mynd iddynt wrth ymgymryd â busnes y Cyngor, drwy'r Ysgrifennydd. Mae yswiriant atebolrwydd ar waith ar gyfer Cyfarwyddwyr a Swyddogion.

e) Bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu aelodau am ddyddiad dechrau a hyd eu haelodaeth.

## 6. Statws Cofrestriad gyda’r Comisiwn Elusennau

a) Yn sgil cyflwyno Deddf Elusennau 2006, newidiodd sefyllfa gyfreithiol holl brifysgolion y DU ac, o ganlyniad, er eu bod yn cadw eu statws elusennol, nid oedd prifysgolion yng Nghymru wedi’u heithrio mwyach o gofrestru gyda’r Comisiwn Elusennau a chael eu rheoleiddio gan y Comisiwn. Cofrestrodd y Brifysgol fel elusen gyda’r Comisiwn Elusennau ym mis Hydref 2010.

b) Er y bu gan aelodau’r Cyngor gyfrifoldebau erioed fel ymddiriedolwyr elusen wedi’i heithrio, fel elusen gofrestredig, mae’r cyfrifoldebau hynny bellach yn fwy blaenllaw. Caiff aelodau eu cyfeirio at gyhoeddiad y Comisiwn Elusennau "CC3 - The Essential Trustee: What you need to Know".

# GWYBODAETH BELLACH

## Sut i wneud cais

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyflwyno cais i fod un aelod lleyg o'r Cyngor, a wnewch chi anfon eich CV ynghyd â Mynegiant o Ddiddordeb, gan nodi'r rhesymau dros eich diddordeb mewn ymuno â Chyngor y Brifysgol, at Ysgrifennydd y Brifysgol, Louise Woollard, drwy e-bostio L.A.Woollard@abertawe.ac.uk.

Gellir hefyd gyfeirio ymholiadau anffurfiol at Louise Woollard.

Rhaid derbyn ceisiadau erbyn **hanner nos ar ddydd Sul 20 Awst 2023.**

Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau'r Cyngor sy'n goruchwylio'r broses ddethol, a fydd yn cynnwys cyfweliad gan hyd at dri llywodraethwr.

Gwahoddir yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer i gyfweliad yn yr wythnos sy'n dechrau ar 18 Medi 2023.

Rhoddir gwybod i'r ymgeiswyr am y canlyniad yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 9 Hydref 2023.

## Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Cyngor a'r Brifysgol yn gyffredinol yn:

Llywodraethu'r Brifysgol
Datganiad Llywodraethu Corfforaethol
Arweinyddiaeth y Brifysgol
Datganiadau Ariannol 1 Awst 2021 i 31 Gorffennaf 2022
Ein Gweledigaeth Strategol An Pwrpas

**Hysbysiad data personol Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)**
Yn unol â chanllawiau GDPR, gallwn brosesu eich Data Personol Sensitif (tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, data genetig, data biometrig, iechyd, bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol) gyda'ch cydsyniad cadarn yn unig. Pan fyddwch yn gwneud cais, gofynnir i chi gwblhau ffurflen ganiatâd a pheidiwch â chynnwys Data Personol Sensitif yn eich CV (er y gellir ei gynnwys yn eich llythyr eglurhaol os ydych chi'n dymuno gwneud hynny). Cofiwch hefyd beidio â chynnwys manylion cyswllt canolwyr heb eu cytundeb o flaen llaw.